Gwaith Dosbarth ______________________________

# Hedd Wyn (Ellis Humphrey Evans)

[redacted]




Ganwyd Hedd Wyn ar 13eg Ionawr 1887 ym Mhen-lan, Trawsfynydd. Ei enw bedydd oedd Ellis Humphrey Evans ond roedd yn defnyddio yr enw Hedd Wyn fel ffug enw ar gyfer yr Eisteddfod.

Dechreuodd Hedd Wyn cymryd rhan mewn eisteddfodau lleol pan yn bedair ar bymtheg oed. Enillodd ei Gadair gyntaf ym Mala yn 1907 gydag awdl o'r enw 'Y Dyffyn'. Bu hefyd yn fuddugol ym Mhontardawe yn 1915 ac unwaith eto yn Llanuwchllyn. Yn yr un flwyddyn hefyd ysgrifennodd ei gerdd gyntaf ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol a gynhaliwyd ym Mangor, a daeth yn ail yn Eisteddfod Genedlaethol Aberystwyth yn 1916.


Penderfynodd Hedd Wyn geisio unwaith eto am y gadair yn Eisteddfod Genedlaethol 1917 ac o Hydref 1916 ymlaen bu yn gweithio yn galed iawn ar ei awdl, sef cerdd hir, tua 500 o linellau ar y pwnc Yr Arwr. Yng nghanol hyn i gyd serch hynny, daeth gorfodaeth milwrol i Brydain, a bu'n rhaid i deulu Hedd Wyn wneud ddewis anodd iawn – roedd yn rhaid iddynt ddewis un o'i meibion i ymuno a'r fyddin. Er mwyn arbed ei frawd ieuengaf, Bob, ymunodd Hedd Wyn. Ymunodd Hedd Wyn a'r fyddin yn Chwefror 1917 a cael ei roi yn 15fed Bataliwn y Royal Welsh Fusiliers.

Ar y 9fed o Fehefin 1917 ymunodd a'r Royal Welsh Fusiliers yn Flechin yn Ffrainc, lle gorffennodd ysgrifennu ei awdl ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol. Postiodd y gerdd ar 15fed Gorffennaf 1917. Ar yr un diwrnod, symudodd ei fataliwn i maes y brwydro. Ar 31ain Gorffennaf tarwyd Hedd Wynn yn ei gefn. Cafodd ei hebrwng wedyn gan 4 ffrind i'r orsaf driniaeth feddygol yn Corner House lle dywedodd y meddyg mae ychydig o obaith oedd ganddo i fyw. Bu farw Hedd Wyn tua 11 o'r gloch y bore ar y 31ain o Orffennaf 1917.



Y GADAIR DDU

Aeth miloedd o Gymry i Penbedw ar y 6ed o Fedi 1917 i weld cadeirio'r bardd buddugol yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Gofynnodd yr Archdderwydd i'r bardd buddugol sefyll ar ei draed.
Cododd neb a cyhoeddwyd fod yr enillydd wedi marw 6 wythnos yn gynharach. Gorchuddiwyd y Gadair wag mewn du a cyhoedwyd bod "Yr ŵyl yn ei dagrau a'r Bardd yn ei fedd". Ar ol y seremoni, aeth a'r gadair i fferm teulu Hedd Wyn, Yr Ysgwrn ar gefn cart a ceffyl, wedi ei gorchuddio mewn du.



"Y GWIR YN ERBYN Y BYD."
"Iesu nad Gamwaith." "Calon wrth Galon."
"A laddo a leddir." "Duw a phob Daioni."
"Dan nawdd Duw a'i Dangnef."

EISTEDDFOD FRENHINOL GENEDLAETHOL CYMRU,
BIRKENHEAD,
MEDI 5, 6, a 7, 1917.

Y RHAGLEN SWYDDOGOL.

THE
Royal National Eisteddfod
OF WALES.
TO BE HELD AT BIRKENHEAD,
5th, 6th, and 7th SEPTEMBER, 1917.

THE OFFICIAL PROGRAMME.

Copyright—PRICE, 6d.; Post free, 7½d.

LIVERPOOL:
PRINTED AND PUBLISHED BY HUGH EVANS & SONS, "BRYTHON" OFFICE.



Claddwyd Hedd Wyn yn Mynwent Artillery Wood, Boezinge, o dan y teitl 'Y Prifardd Hedd Wyn'.

## Tasg- Llinell amser Hedd Wyn

Mi fydd angen i chi greu llinell amser cywir, i raddfa yn dangos y prif digwyddiadau ym mywyd Hedd Wyn. Cofiwch fesur yn ofalus iawn, iawn!!

Rydw i'n deall y gwaith yma: □□□□□